Cynnig cynnar-yn-y-dydd

EDM 260
TLODI TANWYDD YNG NGHYMRU

26.11.2009

Willott, Jenny

Bod y Tŷ hwn yn pryderu'n arw iawn bod tlodi tanwydd erbyn hyn yn effeithio ar 320,000 o aelwydydd yng Nghymru, sy'n 90,000 yn fwy na'r llynedd; wedi syfrdanu bod nifer y marwolaethau ychwanegol oherwydd y gaeaf yng Nghymru wedi codi 67 y cant rhwng 2007-08 a 2008-09; yn nodi y methir â chyflawni'r targed i ddileu tlodi tanwydd ymhlith grwpiau agored i niwed; yn credu y methir â chyflawni'r targed i ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018 oni bai bod ymdrechion i wneud hynny'n cael eu gwella'n sylweddol; yn cefnogi'n llawn Siarter Tlodi Tanwydd Cymru; ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth San Steffan i weithredu cynigion y Siarter yn llawn fel y gellir rhoi Cymru ar y llwybr i ddileu tlodi tanwydd unwaith ac am byth.